

**Gweithgareddau i Flynyddoedd 3 a 4 Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Trawsieithol**

Her ddarllen hwyliog sy'n sbarduno darllen er pleser i blant oed cynradd Cymru

*A fun reading challenge that encourages reading for pleasure for primary-age children in Wales*

# GORNEST LYFRAU 2024–25















CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Cynnwys


| | tudalen |
|---|---|
| **Beth yw Gornest Lyfrau?** | **3** |
| **Llyfrau 2024–25** | **3** |
| **Cwestiynau trafod cyffredinol** | **4** |
| **Chwedlau'r PySgwod** | **5** |
| **Adnabod Awdur: Anni Llŷn** | **6** |
| **Sara Mai ac Antur y Fferm** | **7** |
| **Adnabod Awdur: Casia Wiliam** | **8** |
| **Anturiaethau Mistar Urdd** | **9** |
| **Adnabod Awdur: Mared Llwyd** | **10** |
| **Enwogion o Fri: Betty – Bywyd Penderfynol Betty Campbell** | **11** |
| **Adnabod Awdur: Nia Morais** | **12** |
| **Gardd Gwenno** | **13** |
| **Adnabod Addasydd: Anwen Pierce** | **14** |
| **Digon o Sioe: Fferm Cwm Cawdel** | **15** |
| **Adnabod Awdur: Gwennan Evans** | **16** |
| **Cofnod darllen grŵp** | **17** |
| **Cofnod darllen** | **18** |

## Beth yw Gornest Lyfrau?

Prosiect blynyddol sydd yn annog darllenwyr ifanc Blynyddoedd 3–6 i ddarllen er pleser, trafod y llyfrau maen nhw'n eu darllen, a mwynhau paratoi fideo creadigol fel grŵp neu ddosbarth yn seiliedig ar un o'r llyfrau sydd ar y rhestr ddarllen, yw'r Ornest Lyfrau.

Gall ysgolion cystadlu yn y categorïau isod ac mae rhestr ddarllen ar gael ar gyfer:

- Blynyddoedd 3 a 4 (cyfrwng Cymraeg) ac ysgolion Trawsieithol
- Blynyddoedd 5 a 6 cyfrwng Cymraeg
- Blynyddoedd 3–6 cyfrwng Saesneg


Mae canllawiau ar gael ar gyfer y tri chategori uchod ar ffurf pdf.

Bydd angen i ysgolion ddewis un llyfr o'r rhestr i'w drafod ac un arall i'w gyflwyno fel hysbyseb. Cynhelir rownd sirol dan ofal y trefnwyr sirol, a bydd yr enillwyr sirol yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol yn nhymor yr haf.


Bydd yr ysgolion buddugol yn ennill tlws arbennig ynghyd ag un o'r gwobrau canlynol:

- Gwobr 1af – gwerth £200 o lyfrau
- 2ail wobr – gwerth £150 o lyfrau
- 3edd wobr – gwerth £100 o lyfrau


## Llyfrau 2024–25





**Chwedlau'r PySgwod** (Anni Llŷn, Gwasg Carreg Gwalch)





**Sara Mai ac Antur y Fferm** (Casia Wiliam, Y Lolfa)





**Anturiaethau Mistar Urdd** (Mared Llwyd, Y Lolfa)




**Enwogion o Fri: Betty – Bywyd Penderfynol Betty Campbell** (Nia Morais, Broga)




**Gardd Gwenno** (Isla McGuckin, addasiad gan Anwen Pierce, Graffeg)





**Digon o Sioe: Fferm Cwm Cawdel** (Gwennan Evans, Gwasg Carreg Gwalch)

# Cwestiynau trafod cyffredinol

- Beth ddaru chi ei fwynhau am y llyfr a pham?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Ydych chi'n credu bod teitl y llyfr yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n ei roi fel teitl?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma? Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awduron, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddyn nhw?
- Petai tri chopi o'r llyfr gyda chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n eu castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?

# *Chwedlau'r PySgwod*

**Anni Llŷn**
**Gwasg Carreg Gwalch**




Gutun y Gragen Las sy'n teleportio, Brian y Cranc Brown sy'n ddawnsiwr gwych, Lobo'r Cimwch a'i sgiliau torri gwynt, a Nin y Cranc-ninja – daw pawb at ei gilydd i achub eu ffrindiau dan y don.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Beth yw'r anifail mwyaf sy'n byw yn y môr?
- Oes gennych chi hoff greadur môr? Pam?
- Mae gan y gymeriadau galluoedd arbennig, fel Gutun y Gragen Las sy'n chwinc-deithio. Pe baech yn medru dewis gallu arbennig, beth fyddech chi'n ei ddewis a pham?
- Ydych chi'n mwynhau antur? Pa fath o anturiaethau ydych chi wedi eu cael?
- Sut byddech chi'n disgrifio'r llyfr hwn i rywun sydd heb ei ddarllen?
- Beth yw eich barn chi am y darluniadau sydd yn y llyfr?
- Allwch chi wneud gwaith ymchwil i ddarganfod pryd mae'r diwrnod hiraf yng Nghymru?
- Pa ffeithiau ydych chi'n gwybod am greaduriaid y môr? Pa ffeithiau allwch chi eu darganfod trwy edrych mewn llyfrau ac ar-lein?
- Mae Gutun yn gallu cau ei lygaid a meddwl am "adra". Allwch chi feddwl am eiriau i ddisgrifio beth mae'r gair "adra" yn ei olygu i chi?
- Mae Brian y Cranc Brown yn enwog yn y mor oherwydd ei fod o'n "ddawnsiwr gwych". Allwch chi feddwl am unrhyw ddawnswyr enwog eraill? Pa ddawnsiau enwog allwch chi eu henwi? Ac o ba le/gwlad maen nhw'n dod? Er enghraifft, mae'r salsa yn dod o ...

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae portread o bob cymeriad ar ddechrau'r llyfr, gan gynnwys llun, enw a brawddeg i'w ddisgrifio. Beth am i chi feddwl am greadur – fel crwban y môr neu bysgodyn seren – a mynd ati i greu portread tebyg i'r rhai yn y llyfr? Cofiwch gynnwys enw, llun a brawddeg i ddisgrifio eich cymeriad, fel: "Besi – draenog y môr disglair sy'n gallu'ch swyno." Gallwch hyd yn oed ysgrifennu paragraff yn llawn gwybodaeth am eich creadur!

Efallai bydd yn rhaid i chi wneud gwaith ymchwil i ddod o hyd i fyw o wybodaeth am greaduriaid mor cyn dewis eich cymeriad.

Neu, gallwch chi greu llun gwyddonol: dewiswch anifail a chreu darlun ohono, a chynnwys labeli i ddisgrifio gwahanol nodweddion, er enghraifft: esgyll, cynffon, adenydd, a phwrpas y nodweddion hyn.

### Wedi mwynhau *Chwedlau'r PySgwod?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

***Lledrith yn y Llyfrgell*** – Anni Llŷn – Y Lolfa
***Atlas Lluniau Mawr*** – Emily Bone – Rily
***1000 o Eiriau STEM*** – Jules Pottle – Rily
***Fy Anturiaethau Pwysig Iawn*** **–** Rily
***Camau Corsiog*** – Meilyr Siôn – Atebol

# Anni Llŷn

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ar fferm ym Mhen Llŷn ar gyrion pentref Sarn Mellteyrn.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Pont y Gof, Botwnnog ac Ysgol Uwchradd Botwnnog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Hoffi Cymraeg, cerdd a chwaraeon. Casáu arholiadau.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Doedd gen i ddim syniad!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Ro'n i'n hoffi straeon Twm Siôn Cati, chwedlau'r Mabinogi, a llyfr am blentyn oedd â ffrind bach yn byw mewn twll llygoden o dan y gwely … dwi ddim yn cofio'r teitl!

**Beth yw eich diddordebau?**
Canu, chwarae'r gitâr, barddoni, darllen.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Fy nheulu, mynd i'r traeth, bwyd.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Rhywun sydd ddim yn gwneud ymdrech.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Wnes i ddim meddwl amdano … wnaeth o jyst digwydd!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Wrth dreulio amser gyda phlant, o fy atgofion fy hun, ac o holi'r cwestiwn "Beth os …?"

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Antur, tensiwn, rhyfeddodau.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Ysgrifennu cymaint ag y gallwch chi heb boeni am y safon. Mwya'n byd, gora'n byd! Fe ddaw y safon wrth i chi ddysgu amdanoch chi'ch hun a'ch cryfderau.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Gorau – rhyddid! Gwaethaf – peidio gallu ysgrifennu mor gyflym â'ch meddwl a'ch syniadau!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
Gormod o ddewis!

**Hoff le?**
Garnfadryn.

**Hoff fwyd?**
Stêc, sglodion, salad.

**Hoff air?**
Pendramwnwgl.

**Superpower o ddewis?**
Teleportio … neu chwinc-deithio.

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Rhedeg ysgol greadigol.

**Top tip i ddarpar awduron**
Ysgrifennwch rywbeth bob dydd.

# *Sara Mai ac Antur y Fferm*

**Casia Wiliam**
**Y Lolfa**




Mae Sara Mai yn ôl, a'r tro hwn mae Blwyddyn 5 yn mynd ar drip diwedd tymor i fferm gyfagos. Ochr yn ochr â lluniau gan Gwen Millward, ceir y doniol a'r dwys yng nghwmni llond gwlad o anifeiliaid.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Oes gennych chi hoff anifail fferm neu sw? Eglurwch eich rhesymau dros ddewis yr anifail hwn.
- Ydych chi'n hoffi llyfrau antur?
- Sut ydych chi'n meddwl roedd Sara Mai'n teimlo ar ddechrau'r stori? Sut oedd hi'n teimlo erbyn diwedd y stori? Beth ddigwyddodd i newid ei theimladau hi?
- Hoffech chi fynd ar yr un trip â Sara Mai? Hoffech chi fyw mewn sw fel Sara Mai?
- Pa drip neu dripiau ysgol sy'n aros yn y cof? Beth sy'n eu gwneud nhw'n gofiadwy?
- Mae *Sara Mai ac Antur y Fferm* yn rhan o gyfres. Ydych chi wedi darllen y llyfrau eraill yn y gyfres? Beth fyddech chi'n hoffi gweld Sara Mai'n ei wneud nesaf?
- Sut ydych chi'n credu mae Sara Mai yn teimlo ar ôl clywed am y trip ysgol a'r syniad o aros dros nos heb Mam a Dad am y tro cyntaf? Ydych chi erioed wedi profi teimladau tebyg?
- Sut gallwch chi helpu ffrind sy'n hiraethu am ei gartref ar drip ysgol?
- Ydych chi wedi bod i sw o'r blaen? Beth ydych chi'n ei wybod am sŵau? Mae Mam Sara Mai'n ceidwad sw. Beth ydych chi'n ei wybod am gadwraeth?
- Ar dudalen 13, mae Sara Mai'n sôn am greu portread o un o'i hoff bobl. Allwch chi wneud yr un peth gan ddefnyddio'ch hoff gymeriad o'r llyfr yma neu lyfr arall sy'n ffefryn i chi?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae llawer o anifeiliaid gwahanol yn y llyfr, gan gynnwys rhai sy'n byw yn Sw Halibalŵ, a rhai sy'n byw ar Fferm Tyddyn Gwyn (ac mae yna ddarluniau hefyd, fel y pandas ar dudalen 19). Ceisiwch gyfri'r holl anifeiliaid y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw yn y llyfr (gan gynnwys y lluniau sydd ar y clawr). Yna, beth am greu llun cysylltu'r dotiau o un o'r anifeiliaid yn y llyfr, neu hunanddewsiad, ac yna cyfnewid eich llun â ffrind i'w gwblhau? Gallwch ddefnyddio dotiau neu rifau! Gallwch hefyd cynnwys disgrifiad neu gerdd i gyd-fynd â'ch llun.

Neu, gallwch chi ddewis un anifail sw ac un anifail fferm a chreu rhestr o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhyngddynt. Allwch chi hefyd defnyddio lluniau a'r we i ddod o hyd i ffeithiau am yr anifeiliaid cyn creu cyflwyniad sy'n dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd.

### Wedi mwynhau *Sara Mai ac Antur y Fferm*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

**Cyfres Sara Mai** – Casia Wiliam – Y Lolfa
**Cyfres Mira** – Luned Aaron – Atebol
**Cyfres Fferm Cwm Cawdel** – Gwennan Evan – Gwasg Carreg Gwalch

# Casia Wiliam

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn Llangefni nes oeddwn i'n chwech ac yna yn Nefyn ym Mhen Llŷn.

**Ble cawsoch chi eich addysg?**
Ysgol Nefyn, Ysgol Botwnnog, Coleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli ac yna ym Mhrifysgol Aberystwyth

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i'n licio'r gwersi Cymraeg a Saesneg, a'r pwdin reis crispis siocled, ac yn casáu rheolau hollol wirion fel gwisgo cotiau du yn unig. Hollol hurt!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Doeddwn i erioed yn rhy siŵr, a tydw i dal ddim yn saff! Roeddwn i awydd bod yn geidwad sw ar un adeg – dyna pam fy mod wedi sgwennu *Sw Sara Mai*.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Roeddwn i'n hoff iawn o lyfr *Lleuad yn Olau* (T. Llew Jones), a straeon Alffi a Lili Mei pan oeddwn i'n fach iawn. Yna yn fy arddegau roeddwn i wrth fy modd gyda llyfrau Judy Blume.

**Beth yw eich diddordebau?**
Ysgrifennu yn greadigol, darllen, coginio a chrwydro.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi ddim yn cofio meddwl am ysgrifennu erioed, dim ond gwneud. Roedd o'n rhywbeth naturiol iawn. Does gen i ddim cof o beidio ysgrifennu straeon bach a hanesion.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Wrth grwydro, am dro neu ar fy meic. Rydw i'n fusneslyd iawn – mae hynny yn handi pam mae rhywun angen syniadau!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
I fod yn awdur da mae'n rhaid i ti ddarllen lot. Darllen bob dim fedri di – cefn y bocs brecwast, y botel siampŵ, cylchgrawn, papur newydd, newyddion ar y we, comics … popeth!

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw cyfarfod plentyn sydd wir wedi mwynhau llyfr dwi wedi'i ysgrifennu. Y peth gwaethaf ydi … alla i ddim meddwl am unrhyw beth drwg am fod yn awdur!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Llyfr Mawr Alffi a Lili Mei.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Ron Weasley o gyfres Harry Potter.

**Hoff le?**
Traeth Nefyn.

**Hoff fwyd?**
Tost a Nutella.

**Hoff air?**
Mrengian! (Gair Pen Llŷn ydio sy'n golygu pan mae rhywun yn hongian arnoch chi – dwi'n dweud wrth fy mab tair oed yn aml ,"Paid â mrengian!"

**Superpower o ddewis?**
Gallu hedfan

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Babis.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Plymiwr tanfor.

**Top tip i ddarpar awduron**
Darllenwch a byddwch yn hyderus.

# *Anturiaethau Mistar Urdd*

**Mared Llwyd**
**Y Lolfa**




Anodd credu nad oes gan Mistar Urdd lyfr yn dweud ei hanes! Gyda'r Urdd wedi dathlu ei chanmlwyddiant yn 2022, dyma gyfrol sy'n dod â'r cymeriad rhwng dau glawr o'r diwedd. Mae *Anturiaethau Mistar Urdd* ar ffurf nofel graffig, yn cynnwys tair stori gartŵn – 'Mistar Urdd a'r Allwedd Goll', 'Mistar Urdd yn Llangrannog' a 'Mistar Urdd yng Nglan Llyn'. Llyfr lliwgar i blant o bob oed!

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ydych chi wedi bod yn Llangrannog, Glan-llyn neu Eisteddfod yr Urdd o'r blaen? Gawsoch chi hwyl? Beth oedd eich hoff beth yno? Neu, ydych chi eisiau mynd yno ar ôl darllen y llyfr?
- Ble mae Eisteddfod yr Urdd nesaf? Allwch chi ddod o hyd i ffeithiau gwahanol am yr ardal?
- Mae Mistar Urdd yn siâp triongl. Pa siapau eraill wyt ti'n gallu eugwneud yn defnyddio trionglau?
- Yn 2022 roedd Urdd Gobaith Cymru yn 100 oed. Heblaw am ddechrau Urdd Gobaith Cymru, beth arall ddigwyddodd yn 1922 yng Nghymru?
- Mae Mistar Urdd yn cwrdd â Kizzy Crawford, Elin Fflur ac Yws Gwynedd yn yr Eisteddfod. Ydych chi wedi gwrando arnyn nhw o'r blaen?
- Pa fandiau neu artistiaid ydych chi'n hoffi? Oes gennych chi hoff gân sydd bob tro yn gwneud i chi deimlo'n well? Pam y gân hon? Allwch chi ddisgrifio'r ffordd mae'r gân yn gwneud i chi deimlo? Allwch chi greu rhestr o gerddoriaeth o Gymru ar gyfer disgo dosbarth?
- Mae Tegi, anghenfil Llyn Tegid, yn teimlo'n unig. Allwch chi beintio llun o anghenfil arall i gadw cwmni iddo?
- Llyfr graffig ydy *Anturiaethau Mistar Urdd*. Ydych chi wedi darllen llyfr graffig o'r blaen? Ydych chi'n hoffi nofelau graffig? Allwch chi feddwl am unrhyw fathau eraill o lyfrau?
- Beth yw eich barn chi am y darluniau sydd yn y llyfr? Ydych chi'n hoffi darlunio?
- Ydych chi erioed wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd o'r blaen? Pa gystadleuaeth(au)? Hoffech chi gystadlu eto yn y dyfdol?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Allwch chi ysgrifennu cerdyn post at ffrind o wersyll Llangrannog neu o wersyll Glan-llyn? Gallwch hefyd cynnwys llun ar glawr y cerdyn post sy'n dangos golygfa benodol neu weithgaredd penodol. Mae'r llyfr yn cynnwys darluniau gan Sioned Medi Evans i'ch ysbrydoli!

Neu, fel grŵp neu ddosbarth cyfan, beth am greu fideo miwsig i'r gân 'Hei, Mistar Urdd'? Gwrandewch ar y gân yn y dosbarth, dysgu'r geiriau, ac yna perfformio'r gân o flaen y camera! Bydd yn rhaid i chi olygu'r fideo a dangos y clip gorffenedig ar y sgrin fawr o flaen yr ysgol gyfan!

### Wedi mwynhau *Anturiaethau Mistar Urdd*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

***Cymru ar y Map*** – Elin Meek, darl. Valériane Leblond – Rily
***10 Stori o Hanes Cymru (y Dylai Pawb eu Gwybod)*** – Ifan Morgan Jones – Rily
***Mwy o Straen o'r Mabinogi*** – Siân Lewis – Rily
***Seren a Sbarc a'r Anturiaethau Anhygoel (o Dwp)*** – Elidir Jones a Huw Aaron – Broga
***A wyddoch chi am ... Sefydliadau Cymru?*** – Catrin Stevens – Gomer@Lolfa
***Crater Lake*** – Jennifer Killick – Firefly

# Mared Llwyd

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni yn Ysbyty Bronglais, a fy magu ym mhentref Llangwyryfon, ger Aberystwyth.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Llangwyryfon ac Ysgol Gyfun Penweddig.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i wrth fy modd yn ysgrifennu, darllen a dysgu ieithoedd, ac yn hoff iawn o Hanes fel pwnc hefyd, ond doeddwn i ddim yn deall Ffiseg ryw lawer!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Yn Gymraeg roeddwn i'n dwlu ar gyfres Corryn, a llyfrau cyfres Baeheli gan Gwenno Hywyn. Yn Saesneg, fy ffefrynnau oedd y Famous Five gan Enid Blyton. Roeddwn i wrth fy modd â llyfrau llawn antur lle roedd plant yn datrys dirgelion.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen ac ysgrifennu; treulio amser gyda fy mhlant, Leusa a Cadog; mynd am dro a gwneud rhywfaint o ymarfer corff (rhedeg, nofio a ioga yn bennaf).

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bob man! O ddigwyddiadau bach a mawr bywyd bob dydd, o raglenni teledu, o ddigwyddiadau ar y newyddion ... ac wrth ddarllen gwaith awduron eraill. Mae hynny'n bwysig iawn er mwyn datblygu eich syniadau a'ch arddull eich hun.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Darllenwch, darllenwch, darllenwch! Ac yna ewch ati i ddatblygu eich syniadau a'ch arddull unigryw eich hun trwy ysgrifennu, ysgrifennu, ysgrifennu. Peidiwch â phoeni beth rydych chi'n ei ysgrifennu, na beth fydd unrhyw un yn ei feddwl ohono (nac a fydd unrhyw un yn ei ddarllen, hyd yn oed!). Datblygu eich arddull a'ch syniadau sy'n bwysig – a mwynhau ysgrifennu, wrth gwrs!

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw'r rhyddid i greu cymeriadau newydd sbon yn eich dychymyg – a dod yn ffrindiau gyda nhw! Y peth gwaethaf yw gorfod cwrdd â *deadlines*!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Danny the Champion of the World*; unrhyw un o lyfrau cyfres Famous Five, neu *Tŷ ar y Clogwyn* gan Gwenno Hywyn.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Unrhyw un o gymeriadau Roald Dahl.

**Hoff le?**
Ynyslas, a'r Mynydd Bach yn Nhrefenter sydd dafliad carreg o bentref Llangwyryfon, lle cefais fy magu. Ac unrhyw le yn un o wledydd Sgandinafia.

**Hoff fwyd?**
Panas wedi eu rhostio mewn mêl.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Hoff ffilm i blant – *Matilda the Musical.*
Hoff raglen deledu – *Deian a Loli*.

**Hoff air?**
Diolch.

**Superpower o ddewis?**
Gallu tacluso lloftydd y plant trwy glicio fy mysedd! A gallu siarad sawl iaith yn rhugl.

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Dwi ddim yn un am y cyfryngau cymdeithasol. Dim ond cyfri Facebook sydd gen i, a dwi ddim wir yn defnyddio hwnnw rhyw lawer!


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Cwpanaid da o goffi, noson dda o gwsg, awyr iach, caredigrwydd a chwmni teulu a ffrindiau.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Bod yn berson sy'n mynd â chŵn am dro (*dog walker*) – dwi wrth fy modd gyda chŵn!

**Top tip i ddarpar awduron**
Darllenwch, darllenwch, darllenwch!

# *Enwogion o Fri: Betty – Bywyd Penderfynol Betty Campbell*

**Nia Morais**
**Broga**




Cyfrol yn y gyfres Enwogion o Fri am gyfraniad pwysig Betty Campbell – prifathrawes groenddu gyntaf Cymru – i'n hanes fel cenedl. Pwrpas y gyfres yw goleuo plant Cymru am gyfraniad unigolion o Gymru i'n diwylliant, a hynny mewn nifer o feysydd amrywiol.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Pa fath o berson oedd Betty? Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Petaech chi'n cwrdd â Betty, pa dri chwestiwn fyddech chi'n eu gofyn?
- Beth ydych chi wedi ei ddysgu trwy ddarllen stori Betty?
- Beth yw ystyr 'penderfynol'? Ydych chi'n berson penderfynol?
- Ydy stori Betty yn ysbrydoledig? Pam?
- Mae Betty yn arwres i lawer o bobol. Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud arwres neu arwr?
- Oes gennych chi arwres neu arwr?
- Mae'r llyfr yn rhan o gyfres o'r enw Enwogion o Fri. Pa enwogion eraill hoffech chi weld yn y gyfres?
- Hoffech chi fod yn athrawes neu athro?
- Beth ydych chi eisiau ei wneud pan fyddwch chi'n tyfu i fyny?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am ddewis person ysbrydoledig hanesyddol, neu rywun sy'n fyw heddiw, ac ewch ati i greu portread ohono/ohoni. Defnyddiwch pa gyfrwng bynnag rydych chi'n meddwl fydd yn gweddu orau i'ch arwr neu berson ysbrydoledig. Beth am ddewis rhywun enwog o'ch milltir sgwâr chi? Gallwch arddangos eich portread fel erthygl papur newydd ar gyfer eich papur lleol neu wefan cymunedol.

Neu:

Mae cofeb wedi ei dylunio i gofio am Betty Campbell a'i gwaith pwysig a'i stori ysbrydoledig. Ydych chi wedi gweld y gofeb yng Nghaerdydd? Beth am ddylunio eich cofeb eich hun i Betty? Allwch chi ddefnyddio geiriau a lluniau o'r llyfr i'ch ysbrydoli. Ble fydd eich cofeb yn sefyll? Sut fydd yn edrych? Pa ddeunyddiau fydd yn eich cofeb?

### Wedi mwynhau *Enwogion o Fri: Betty – Bywyd Penderfynol Betty Campbell*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

**Cyfres Enwogion o Fri** – Broga
***Cymry o Fri!*** – Jon Gower – Y Lolfa
***Fy Anturiaethau Pwysig Iawn*** – Rily
***Genod Gwych a Merched Medrus* (1 a 2)** – Medi Jones-Jackson – Y Lolfa
***Y Lliwiau i Gyd – Stori Betty Campbell*** – Casia Wiliam – Gwasg Carreg Gwalch

# Nia Morais

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Caerdydd.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Pencae ac yna Ysgol Plasmawr.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n caru darllen ac ysgrifennu, dysgu ieithoedd newydd, a chwarae offerynnau – dysgais i'r recorder ac yna'r ffliwt!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Yn gyntaf, menyw lollipop, ac yna person trin gwallt, ac yna archeolegwr, ac yna doctor, ac yna biolegydd y môr ... ond ar ben popeth arall ro'n i wastad eisiau bod yn awdur!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Straeon Winnie the Pooh gan A. A. Milne, *Molly Moon's Incredible Book of Hypnotism* gan Georgia Byng, *Inkheart* gan Cornelia Funke, *Indigo Blue* gan Cathy Cassidy, popeth gan Meg Cabot, ac ro'n i'n dwli ar comics *Calvin and Hobbes*.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Ro'n i'n dwlu ar ddarllen felly ro'n i eisiau sgwennu fy straeon fy hun. Mae fy mrawd a'm chwaer hynaf yn sgwennu hefyd, felly cefais i'r syniad o astudio ysgrifennu creadigol yn y brifysgol ganddyn nhw!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Hud a lledrith.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Peidiwch â phoeni os nad ydy'r syniad yn dda i ddechrau. Mae angen trio pethau newydd a bod yn ddigon ddewr i arbrofi er mwyn creu'r stori sydd yn eich pen.

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Inkheart* gan Cornelia Funke.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Calvin o gartwnau *Calvin and Hobbes*, neu Mia Thermopolis o gyfres *The Princess Diaries*.

**Hoff fwyd?**
Cacen.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Coraline* ac *Over The Garden Wall*.

**Hoff air?**
Sisial.

**Superpower o ddewis?**
Gallu blincio i deithio o un lle i'r llall.

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
TikTok.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Anifeiliaid.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Swydd ym myd ieithyddiaeth, neu swyddog coedwigaeth.

**Top tip i ddarpar awduron**
Os ydych chi'n teimlo'n sownd ac yn methu symud ymlaen yn y sgwennu, yna mae 'na rhwybeth o'i le yn yr hyn ry'ch chi 'di sgwennu'n barod – ewch yn ôl, nid ymlaen!

## *Gardd Gwenno*

**Isla McGuckin (addasiad gan Anwen Pierce)**
**Graffeg**




Mae Gwenno'n byw mewn stafell lwyd, ddiflas, mewn tŷ sydd ddim yn gartref, ond mae'n breuddwydio am fywyd gwell ... yn llawn mannau hapus, tawel ... a rhywle i chwarae. Ond mae pob hedyn mae Gwenno'n ei blannu yn gwrthod gwreiddio, ac mae ei breuddwydion yn mynd yn bellach o'i chyrraedd.

### Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Beth ydych chi'n gwybod am arddio? Allwch chi enwi unrhyw offer garddio?
- Ydych chi'n hoffi garddio?
- Pa 5 peth sy'n gwneud i blanhigyn dyfu? Os nad ydych chi'n siŵr, beth am ddefnyddio'r we neu lyfrau i wneud gwaith ymchwil?
- Oes gennych chi hoff flodyn, planhigyn neu goeden? Pam?
- Mae Gwenno'n teimlo'n "flin" iawn ar dudalen 24. Pam mae hi'n teimlo fel hyn? Beth sy'n gwneud i chi'n teimlo'n well pan ydych chi'n flin?
- Sut gallwn ni helpu ffrind pan maen nhw'n teimlo'n drist neu'n flin fel Gwenno yn y llyfr?
- Beth ydych chi'n meddwl o'r lluniau yn y llyfr?
- Darllenwch froliant y llyfr. Yna, mewn grwpiau, beth am drafod beth mae'r gair 'cartref' yn ei olygu i chi? Yna, beth am wneud yr un peth gyda'r gair 'gobaith'?
- Yn eich barn chi, beth ydy neges y stori?
- Sut fath o gymeriad ydy Gwenno? Pa eiriau allwch chi eu defnyddio i'w disgrifio hi?

### Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Ar dudalen 10, mae Mam yn dweud wrth Gwenno i dynnu llun o "ardd dy freuddwydion" gan ddefnyddio papur a phensiliau lliw. Beth am greu llun o'ch breuddwydion eich hun? Allwch chi ddefnyddio llun Gwenno ar dudalen 11 fel ysbrydoliaeth, neu rywbeth hollol wahanol!

Neu, mewn parau neu grwpiau, allwch chi greu eich cylchgrawn eich hun? Yn y llyfr, mae Gwenno'n dod o hyd i hadau mewn cylchgronau. Meddyliwch am thema a chynnwys i'r cylchgrawn, ac am anrheg am ddim i ddarllenwyr, fel yr hadau sydd gan Gwenno. Cyn dechrau ar y gwaith creu, beth am drafod y math o gylchgronau rydych chi'n eu hoffi, a'r gwahanol bynciau allwch chi eu trafod, fel: chwaraeon, ffasiwn, hanes, sioe teledu, llyfrau. Cofiwch feddwl am enwau addas!

**Wedi mwynhau *Gardd Gwenno*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**
***Y Llyfr Hel Atgofion*** – Louise Gooding – Graffeg
***Gwenynen / Bee*** – Brendan Kearney – Rily
***Cant a Mil o Freuddwydion*** – Rhiannon Lloyd Williams – Y Lolfa
***Y Fainc Ffrindiau / The Friendship Bench*** – Wendy Meddour – Atebol
***Mae Twm Gartref*** – Emma Bettridge – Graffeg
***Nefoedd yr Adar!*** – Nicola Davies – Graffeg
***Sara a'r Stranc*** – Nadia Shireen – Atebol
***Tyfa, Goeden, Tyfa!*** – Dom Conlon – Graffeg

# Anwen Pierce

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Treffynnon, sir y Fflint, oedd fy nghartre nes 'mod i'n bedair oed. Mae'r teulu ar ochr Mam a Dad yn dod o'r gogledd, felly er 'mod i'n byw yng Ngheredigion ers blynyddoedd, dwi'n falch iawn o'm gwreiddiau gogleddol.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Llandysul – yr ysgol gynradd a'r ysgol ramadeg yn y pentre.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Mae'n anodd dewis! Ro'n i'n ffan o lyfrau Irma Chilton, Emily Huws, Dafydd Parri a Marion Eames. Ro'n i'n gwirioni ar *The Magic Faraway Tree* (Enid Blyton), a phan o'n i'n fy arddegau ro'n i wedi fy swyno gan *The Owl Service* (Alan Garner).

**Beth yw eich diddordebau?**
Canu, gwrando ar gerddoriaeth, trio chwarae'r piano, cerdded, trio barddoni, a darllen ffuglen.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Tywydd braf a chynnes, a'r amser i'w fwynhau.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Cymaint o bethau – annhegwch, difaterwch tuag at fyd natur, anwybodaeth pobl am Gymru ... gallai'r rhestr fod yn faith.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi wedi mwynhau sgwennu a thrin geiriau ers 'mod i'n cofio. Cael y dalent a'r amser i greu nofel yw'r freuddwyd fawr!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Dwi'n mwynhau gwylio pobl a hanner gwrando ar eu sgyrsiau wrth eistedd mewn caffi. Mae bywydau pobl mor ddiddorol!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Perthynas pobl â'i gilydd, a'n perthynas â ni ein hunain (am ateb dwys!).

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Sylwi ar bethau a phobl sydd o'ch cwmpas a darllen bob math o bethau, nid dim ond y pethau ry'ch chi'n gyfarwydd â nhw.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Gorau – cael y cyfle i gyfleu emosiynau mewn geiriau. Gwaethaf – diffyg awen ac amser i wneud hyn!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*The Owl Service*.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Moonface yn *The Magic Faraway Tree*.

**Hoff le?**
Monstsoreau yn nyffryn Loire – lle hyfryd!

**Hoff fwyd?**
Cacen coffi a chnau Ffrengig.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*In the Night Garden* – gwyliais oriau o'r gyfres gyda fy merch pan oedd hi'n fach.

**Hoff air?**
Empathi.

**Superpower o ddewis?**
Troi'n anweledig (weithiau).

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Facebook, os oes rhaid dewis, ond dwi ddim yn ffan.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Haul cynnes ar fy wyneb a phaned o goffi da yn fy llaw.


**Swydd tasech chi ddim yn awdur?**
Swydd ddelfrydol?

Rhyw fath o swydd gadwriaethol ym myd natur – mewn gwlad gynnes!

**Top tip i ddarpar awduron**
Rhowch gynnig arni – beth yw'r peth gwaethaf all ddigwydd?

## *Fferm Cwm Cawdel – Digon o Sioe*

**Gwennan Evans**
**Gwasg Carreg Gwalch**




Dydy Ffion y ffermwraig ddim yn gallu mynd ar ei gwyliau, oni bai ei bod hi'n mynd â'r holl wartheg gyda hi. Does dim amdani felly ond gwyliau gwirion i bawb! Dewch i ymuno â Ffion, Fflei a'r gwartheg direidus wrth iddyn nhw fwynhau'r holl gyffro yn y Sioe Fawr!

### Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ydych chi wedi bod i'r Sioe Fawr? Hoffech chi fynd os nad ydych chi wedi bod o'r blaen?
- Beth ydych chi'n ei wybod am y Sioe Fawr?
- Mae *Digon o Sioe* yn rhan o gyfres. Ydych chi wedi darllen y llyfrau eraill yn y gyfres?
- Beth yw eich barn am y lluniau yn y llyfr a'r clawr?
- Beth ydych chi'n ei wybod am ffermydd a ffermio?
- Oes gennych chi hoff anifail fferm?
- Sut fath o gymeriad yw Ffion? Allwch chi feddwl am eiriau addas i'w disgrifio hi?
- Beth hoffech chi weld cymeriadau Cwm Cawdel yn ei wneud nesaf?
- Ydych chi'n gwybod faint o wahanol fathau o wartheg sydd yn y byd?
- Allwch chi gyfri sawl buwch sydd yn y llyfr?

### Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am chwarae gêm o Ioga Anifeiliaid tu allan ar ddiwrnod braf? Mae'n rhaid i bawb ddewis anifail a meddwl am y math o siapiau mae'r anifail yn eu gwneud. Yna, creu ystum ioga sy'n cynrychioli eich anifail.

Neu, gan ddefnyddio apiau a thechnoleg sydd ar gael ar gyfrifiaduron neu iPads, dyluniwch eich fferm eich hun. Meddyliwch am y math o bethau y bydd angen i chi eu cynnwys, er enghraifft: pa anifeiliaid sydd ar y fferm, rhywle iddyn nhw gysgu, bwyta, ac yn y blaen.

#### Wedi mwynhau *Fferm Cwm Cawdel: Digon o Sioe*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

**Cyfres Cwm Cawdel** – Gwennan Evans – Gwasg Carreg Gwalch
**Cyfres Sara Mai** – Casia Wiliam – Y Lolfa
**Cyfres Roli Poli** – Nan a'r Sioe Fawr – Ifan Jones Evans – Y Lolfa
***Camau Corsiog*** – Meilyr Siôn – Atebol

# Gwennan Evans

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ces fy ngeni yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin a fy magu ar fferm ger Pumsaint yn Sir Gaerfyrddin.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Ffarmers.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i'n dwlu canu a dawnsio ac esgus fy mod mewn grŵp pop gyda fy ffrind gorau, Elin. Doeddwn i ddim yn hoffi mathemateg.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
*Mrs Mochyn a'r Sos Coch*.

**Beth yw eich diddordebau?**
Rwy'n mwynhau nofio a beicio a chwarae cuddio gyda'r plant.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Roeddwn i'n mwynhau ysgrifennu straeon yn yr ysgol gynradd ac yn treulio hanner y wers yn meddwl am enwau i fy nghymeriadau. Dyna'r darn dwi'n dal i'w fwynhau fwyaf!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Rwy'n hoffi ysgrifennu am fywyd yn y wlad a sut mae'n wahanol i fyw mewn tref neu ddinas. Rwy'n hoffi ysgrifennu am ferched pwerus, a gorau oll os galla i wneud i'r darllenydd chwerthin!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Darllenwch bob math o lyfrau i gael syniadau, a gwrandewch ar yr hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas chi. Peidiwch bod ofn bod yn wahanol. Gadewch i'ch llais chi ddisgleirio.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Mae wynebu tudalen wag pan rydych wedi addo stori neu gerdd i rywun yn gallu bod yn anodd – dyna'r peth gwaethaf. Y peth gorau yw gweld plant wedi'u gwisgo fel un o'ch cymeriadau ar Ddiwrnod y Llyfr.

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Mrs Mochyn a'r Sos Coch*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mrs Mawr o'r llyfr *Pum Munud o Lonydd*. Clasur!

**Hoff le?**
Unrhyw lwybr fflat yn y wlad lle gallaf reidio fy meic fel y gwynt. Mae llwybrau beicio hyfryd ar arfordir Cymru, yn enwedig yn ardaloedd Abertawe a Llanelli.

**Hoff fwyd?**
Cinio Nadolig gyda'r trimins i gyd.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*C'mon Midffîld*, heb os.

**Hoff air?**
Bendibwmbwls!

**Superpower o ddewis?**
Byddwn i wir yn hoffi gallu byw ar lai o gwsg er mwyn cael mwy o amser i joio, ond os nad dwi'n cael 8 awr (o leiaf) rwy'n gecrus dros ben!

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Rwy'n hen ffasiwn ac felly'n mynd i ddewis Facebook. Oes rhywun yn fodlon esbonio i mi sut mae Instagram yn gweithio??

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Pobl yn bod yn garedig ac yn helpu ei gilydd.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Byddwn i'n dwlu gweithio mewn siop lyfrau, ond falle byddwn i'n dechrau sgwennu stori am ambell gwsmer ...

**Top tip i ddarpar awduron**
Peidiwch â bod ofn mentro, a cheisiwch beidio bod yn rhy gystadleuol. Dydy pawb ddim yn mynd i hoffi eich gwaith, ac mae hynny'n iawn. Dal ati sy'n bwysig.

## Cofnod darllen grŵp ______________________________

| Teitl | Awdur a darlunydd | Sgôr allan o 10 (cyfartaledd grŵp) |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cofnod darllen ______________________________

| Dyddiad dechrau | Teitl ac awdur | Dyddiad gorffen | Sgôr allan o 10 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |